**Hawdd ei Ddeall**

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru**

# Adroddiad am beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2023 a 2024











Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Adroddiad Blynyddol 2023 - 2024**’.

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.northwales-pcc.gov.uk/cy/cysylltu-ni

**Ebost:** schth@heddlugogleddcymru.police.uk

**Ffôn:** 01492 805486

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Cyflwyniad........................................................................4

Ein gwasanaethau yn 2023 i 2024 ......................................5

Fy nghynllun heddlu a throseddu .......................................6

Gwaith cymunedol...........................................................8

Dyletswydd Trais Difrifol.................................................. 10

Troseddu yng Ngogledd Cymru ......................................... 12

Cwynion yr heddlu ........................................................... 13

Cymdogaethau mwy diogel ............................................... 15

Cefnogi pobl ................................................................. 16

Ffyrdd teg ac effeithiol o ddelio â throsedd.................. 19

Arian rydyn ni'n ei wario................................................... 21

Geiriau anodd.................................................................. 22

# Cyflwyniad



Fy enw i ydy **Andrew Dunbobbin**. Fi ydy **Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC) ar gyfer Gogledd Cymru**.



Adroddiad am beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2023 a 2024

www.northwales-pcc.gov.uk/cy

Dyma adroddiad am y gwaith mae ein swyddfa wedi'i wneud rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.



Rydw i'n falch o ddweud bod llai o droseddau wedi bod o'r flwyddyn flaenorol.




Hoffwn ddiolch i bawb yn y swyddfa yma am eu gwaith caled. A diolch i bobl Gogledd Cymru am gymryd rhan ac am eu cefnogaeth.

**Andrew Dunbobbin Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

# Ein gwasanaethau yn 2023 i 2024




Roedd bron i 120 mil o alwadau 999. Mae hyn yn uwch na'r llynedd. 999 ydy'r rhif i alw mewn argyfwng, pan fyddwch chi angen help ar unwaith.




Roedd tua 240 mil o alwadau i 101. Mae hyn ychydig yn is na'r llynedd. 101 ydy'r rhif ar gyfer achosion sydd ddim yn argyfwng, fel rhoi gwybod am gar wedi'i ddwyn.




Fe wnaeth pobl  gysylltu â ni trwy Webchat ac e-bost ychydig dros 88 mil o weithiau.



Mae ein swyddogion wedi mynd i dros 60 mil o ddigwyddiadau.



Fe wnaeth yr heddlu arestio bron i 20,000. Mae hyn yn uwch na'r llynedd.

# Fy nghynllun heddlu a throseddu




Cynllun i frwydro yn erbyn troseddu yng Ngogledd Cymru ydy'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'n rhaid i'r heddlu ddilyn y cynllun yma.




Mae fy **nghylnllun heddlu a throseddu** yn dweud:

- beth rydw i eisiau ei wneud yng Ngogledd Cymru

- sut rydw i'n bwriadu ei wneud.






Fy mhrif nodau ar gyfer Gogledd Cymru ydy:

- Cael cymdogaethau mwy diogel
- Cefnogi dioddefwyr a chymunedau
- Ffyrdd teg a da o ddelio â throsedd




Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud tuag at fy nghynllun heddlu a throseddu yn 2023 i 2024.

# Gwaith cymunedol



Fe wnaethon ni roi arian ar gyfer llawer o wahanol weithgareddau a gwasanaethau.



Er enghraifft, y Gronfa Bêl-droed Haf. Arian oedd hwn i glybiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Roedd hyn er mwyn helpu i stopio **ymddygiad gwrthgymdeithasol**.




**Ymddygiad gwrthgymdeithasol** ydy unrhyw ymddygiad sy'n effeithio ar bobl eraill mewn ffordd wael. Er enghraifft, mae'n codi ofn, yn achosi gofid neu'n bryderus.



Fe wnaethon ni gynnal cyfarfodydd ar draws 6 ardal yng Ngogledd Cymru. Rhoi cyfle i bobl siarad am eu pryderon.



Fe wnaethon ni fynd i wahanol ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru, lle roedd pobl yn gallu siarad â ni. Er enghraifft, yr **Eisteddfod Genedlaethol** yng Ngwynedd.



Rydyn ni yn rhedeg Cronfa Nadolig Cymunedol. Roedd hyn yn cefnogi sefydliadau dros y Nadolig.



Fe wnaethon ni gynnal arolwg ar faint y dylai pobl ei dalu am blismona trwy eu Treth Cyngor. Fe wnaeth dros 1,500 o bobl ymateb.




Dyma lun o ddigwyddiad roedden ni wedi ei gynllunio o'r enw 'All for One'

# Dyletswydd Trais Difrifol




Fe ddaeth deddf newydd allan yn 2023 o’r enw **Dyletswydd Trais Difrifo**l.




Fe wnaethon ni gynllun i’n helpu i ddelio â thrais difrifol yng Ngogledd Cymru. Mae’n cael ei alw yn **Strategaeth Trais Difrifol**.



Mae trais difrifol yn meddwl troseddau fel llofruddiaeth, troseddau cyllyll a throseddau gwn.



Mae’n ymwneud â phethau fel:



- Stopio trais difrifol rhag digwydd. A chymryd rhan mewn sefyllfaoedd yn gynnar, cyn iddyn nhw waethygu.



- Addysgu pobl ifanc am fod yn ddiogel rhag pethau fel **camfanteisio**.

> Mae **camfanteisio’n** meddwl trin rhywun yn wael a’u defnyddio i gael rhywbeth rydych chi ei eisiau.



- Gweithio yn y ffyrdd gorau.



- Dysgu mwy am effeithiau plentyndod anodd.



Rydyn ni yn falch o’r gwaith rydyn ni yn ei wneud gyda sefydliadau eraill i helpu i stopio trais difrifol yng Ngogledd Cymru.

# Troseddu yng Ngogledd Cymru



Roedd llai o droseddu na'r llynedd.



Roedd llai o drais yn erbyn menywod a merched.



Roedd llai o **droseddau casineb**.

Mae **troseddau casineb** yn meddwl cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.



Roedd llai o drais yn gyffredinol.



Mae llai o fyrgleriaethau wedi bod.

# Cwynion yr heddlu




Cafodd bron i 500 o gwynion eu gwneud am yr heddlu. Cafodd 12 o heddweision eu diswyddo am nad oedden ni'n hapus gyda'r ffordd roedden nhw wedi gwneud eu gwaith.



Mae'r rheolau'n cael eu newid i'w gwneud hi'n gyflymach i ddelio gyda materion fel hyn.



Rydyn ni yn cynnal mwy o archwiliadau o **ddalfa'r heddlu** yng Ngogledd Cymru.



**Dalfa'r heddlu** ydy pan fydd rhywun yn cael ei ddal gan swyddogion yr heddlu mewn man diogel. Fel gorsaf heddlu.

Rydyn ni'n edrych ar bethau fel:



- Sut mae grym corfforol, fel dal, pinio i lawr a thaflu, yn cael ei ddefnyddio yn **nalfa'r heddlu**.



- Sut mae plant yn cael eu **cadw'n gaeth**.

Mae **cadw'n gaeth** yn meddwl cadw yn **nalfa'r heddlu**.



Mae 24 o bobl o'r gymuned leol yn edrych ar **ddalfa'r heddlu**. Maen nhw'n dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.




Rydw i wedi gwneud llawer o waith i edrych bod y safonau yn uchel yn Heddlu Gogledd Cymru.



Mae pob adran heddlu wedi gorfod dilyn rheolau newydd ynglŷn â sut maen nhw'n ymddwyn. Mae hyn oherwydd troseddau mae swyddogion yr heddlu wedi eu cyflawni mewn mannau eraill, fel Llundain.

# Cymdogaethau mwy diogel



- Fe wnaethon ni gyflogi rhywun i gefnogi teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid mewn damwain ffordd ddifrifol. Maen nhw'n gweithio i'r elusen diogelwch ffyrdd o'r enw BRAKE.



- Rydyn ni wedi cefnogi cymunedau gyda phryderon diogelwch ar y ffyrdd.



- Fe wnaethon ni gefnogi cymunedau gwledig a phentrefi i ddysgu am ddiogelwch ar-lein.



# Cefnogi pobl



- Fe wnaethon ni weithio gyda sefydliadau eraill i wella'r ffordd rydyn ni yn cefnogi pobl sy'n profi **trais domestig**.



**Trais domestig** ydy unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, cynbartner neu aelod o'r teulu.



- Rydyn ni wedi gweithio i gefnogi pobl y mae **caethwasiaeth fodern** yn effeithio arnyn nhw.



**Caethwasiaeth fodern** ydy pan fydd rhywun yn cael ei dwyllo neu'n cael ei orfodi i weithio i rywun. Dydyn nhw ddim yn gallu gadael, maen nhw yn colli eu rhyddid.



- Rydyn ni wedi bod yn rhan o grwpiau am gydraddoldeb a thrin pobl yn deg.




- Rydyn ni yn ariannu gwasanaeth o'r enw **Get Safe Online**.



- Rydyn ni yn helpu'r heddlu i redeg grŵp ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Ei enw ydy **Grŵp Llysgenhadon Ifanc**.



- Rydyn ni yn cefnogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn edrych ar waith yr heddlu.



- Rydyn ni yn gweithio i wneud yn siŵr bod yr heddlu'n cyflogi pobl o wahanol gefndiroedd.



- Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar leihau troseddau sy’n digwydd mewn siopau.



- Rydyn ni wedi sefydlu grŵp i glywed barn dioddefwyr troseddau. Ei enw ydy **Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru**.



- Roedd llai o **droseddau casineb**. Ond  dydy rhai **troseddau casineb** ddim yn cael eu cofnodi. Mae’n bwysig iawn eu bod yn cael eu hadrodd.



- Roedd pobl yn hapus gyda’r ffordd y gwnaethon ni ddelio â **throseddau casineb**.

# Ffyrdd teg ac effeithiol o ddelio â throsedd



- Mae gwasanaethau wedi cydweithio i ddelio â throsedd. Ac i leihau faint o droseddau sy'n digwydd.




- Mae pob tyst wedi cael gwybod eu bod nhw yn gallu rhoi tystiolaeth **o bell**. Mae hyn yn meddwl dim mewn llys.



- Rydyn ni wedi bod yn dysgu mwy am gefnogi dioddefwyr trais rhywiol yn y ffyrdd gorau.



- Rydyn ni yn sefydlu grŵp ar gyfer dioddefwyr fel eu bod nhw yn gallu dweud beth maen nhw'n feddwl am y gwasanaethau sydd eu hangen.



- Rydyn ni wedi dysgu mwy am gefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan **drawma**.



> **Trawma** ydy pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd, ac mae'n gwneud i rywun deimlo'n drist neu'n ofnus am amser hir.



- Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith ar **gyfiawnder adferol**.



> **Cyfiawnder adferol** ydy pan fydd person sy'n cael ei niweidio gan drosedd a'r person sydd wedi gwneud y drosedd yn siarad gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu pawb i ddod o hyd i ffordd dda ymlaen.

# Arian rydyn ni'n ei wario



Fe gawson ni bron i 189 miliwn o bunnoedd gan y llywodraeth a'r dreth gyngor.



Fe wnaethon ni wario'r arian mwyaf ar swyddogion a staff yr heddlu.



Fe wnaethon ni wario llai o arian nag oedden ni'n meddwl y bydden ni ar adeiladau a thrafnidiaeth.



Fe wnaethon ni wario mwy o arian nag oedden ni'n meddwl y bydden ni ar bethau fel dodrefn swyddfa ac offer. Roedd hyn er mwyn cefnogi ein staff i weithio mewn ffyrdd sy'n gweddu orau iddyn nhw.




Rydyn ni wedi arbed bron i 4 miliwn o bunnoedd.

# Geiriau anodd

### Cadw'n gaeth

Mae cadw'n gaeth yn meddwl cadw rhywun yn nalfa'r heddlu.

### Caethwasiaeth fodern

Caethwasiaeth fodern ydy pan fydd rhywun yn cael ei dwyllo neu'n cael ei orfodi i weithio i rywun. Dydyn nhw ddim yn gallu gadael, maen nhw yn colli eu rhyddid.

### Camfanteisio

Mae camfanteisio'n meddwl trin rhywun yn wael a'u defnyddio i gael rhywbeth rydych chi ei eisiau.

### Cyfiawnder adferol

Cyfiawnder adferol ydy pan fydd pobl sy'n cael eu niweidio gan drosedd a'r person sydd wedi gwneud y drosedd yn siarad gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu pawb i ddod o hyd i ffordd dda ymlaen.

### Dalfa'r heddlu

Dalfa'r heddlu ydy pan fydd rhywun yn cael ei ddal gan swyddogion yr heddlu mewn man diogel. Fel gorsaf heddlu.

### Trais domestig

Trais domestig ydy unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, cynbartner neu aelod o'r teulu.

## Trawma

Trawma ydy pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd, ac mae'n gwneud i rywun deimlo'n drist neu'n ofnus am amser hir.

## Troseddau casineb

Mae hyn yn meddwl eich bod yn cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae hyn yn ymddygiad sy'n effeithio ar bobl eraill mewn ffordd wael. Er enghraifft, mae'n codi ofn, yn achosi gofid neu'n bryderus.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

@NorthWalesPCC

@schthgc_nwopcc

schthgc_nwopcc



















www.northwales-pcc.gov.uk/cy